



Trwydded Radio Masnachol Analog: Ffurflen Cais i Newid Fformat

Dyddiad y cais:	13 Medi 2016
Enw'r Orsaf:	Radio Ceredigion,
Yr ardal sydd wedi'i thrwyddedu a rhif y drwydded:	Ceredigion (AL 139)
Deiliad y drwydded:	Radio Ceredigion Limited
Enw cyswllt:	Martin Mumford

Manylion y cais i newid Fformat

Cymeriad y Gwasanaeth <i>Llenwch yr adran hon os ydych chi'n gofyn am newid y rhan hon o'ch Fformat</i>	Cymeriad Presennol y Gwasanaeth: amh
	Cymeriad newydd arfaethedig y Gwasanaeth: amh
Trefniadau rhannu rhaglenni a/neu drefniadau cydleoli <i>Llenwch yr adran hon os ydych chi'n gofyn am newid y rhan hon o'ch Fformat</i>	Y trefniadau cyfredol: Rhannu rhaglenni: Gellir rhannu'r holl raglenni rhwng trwyddedau AL272, AL289, AL139
	Y trefniadau newydd arfaethedig: Gellir rhannu'r holl raglenni rhwng trwyddedau AL272, AL289, AL139, AL307, AL256
Oriau wedi'u gwneud yn lleol a/neu fwletinau newyddion lleol	Rhwymedigaethau cyfredol: amh

<i>Llenwch yr adran hon os ydych chi'n gofyn am newid y rhan hon o'ch Fformat</i>	Y rhwymedigaethau newydd arfaethedig: amh
--	---

Gall deiliad trwydded radio masnachol lleol analog wneud cais i Ofcom am gael newid Fformat yr orsaf. Wrth wneud unrhyw gais, dylid defnyddio'r drefn a ddangosir ar y ffurflen hon, a dylai gyd-fynd â'r gweithdrefnau y mae Ofcom wedi'u cyhoeddi ar gyfer newidiadau i Fformat (ar gael ar ein gwefan yn <http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/>)

O dan adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), dim ond os yw'n fodlon bod *o leiaf* un o'r pum maen prawf statudol canlynol wedi'i fodloni y bydd Ofcom yn cael rhoi caniatâd ar gyfer newid Fformat:

- (a) *na fyddai'r gwyrriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;*
- (b) *na fyddai'r gwyrriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;*
- (c) *y byddai'r gwyrriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol;*
- (d) *bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg pobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n deillio o'r gwyrriad, neu gefnogaeth sylweddol ganddynt iddo; neu*
- (e) *y byddai (i) y gwyrriad yn digwydd wrth i raglenni yn y gwasanaeth trwyddedig beidio â chael eu gwneud ar safleoedd yn yr ardal neu'r gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) byddai'r rhaglenni hynny yn parhau i gael eu gwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar safleoedd yn yr ardal gymeradwy (fel y diffiniwyd yn adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (cynnwys lleol a chymeriad gwasanaethau)).*

Dim ond un o'r pum maen prawf hyn y mae angen ei fodloni er mwyn i Ofcom ganiatáu'r newid arfaethedig. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw Ofcom o'r farn bod y newid arfaethedig yn bodloni un neu ragor o'r meini prawf statudol, efallai y bydd rhesymau (gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos) pam na chaiff Ofcom roi caniatâd ar gyfer y newid arfaethedig. Gellir gweld y meini prawf ychwanegol hyn y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth arfer y disgrisiwn hwn yn: <http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/>)

Dylai ymgeiswyr nodi bod adran 106ZA o'r un Ddeddf (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu ei bod yn rhaid ymgynghori ar newid arfaethedig *nad yw'n* bodloni'r cyntaf neu'r olaf o'r meini prawf hyn (h.y. newid a fyddai neu a *allai* newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol ym marn Ofcom, neu *nad yw'n* berthnasol i darddiad rhaglenni lleol), os ydyw i'w ystyried ymhellach o dan unrhyw un o'r tri maen prawf arall. #.

Os bydd Ofcom yn cael cais i newid Fformat a'i fod o'r farn *nad yw* maen prawf (a) neu (e) wedi'i fodloni, bydd yn gofyn am gadarnhad gan yr ymgeisydd ynghylch a yw'n dymuno bwrw ymlaen â'r cais (ac, os yw'n dymuno gwneud hynny, a yw'n dymuno newid ei gyflwyniad neu roi un yn ei le gan gofio ei bod yn rhaid ei gyhoeddi).

A fyddech cystal â nodi'r maen prawf neu'r meini prawf statudol a nodir yn adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990, a fodlonir yn eich barn chi mewn perthynas â'r cais hwn i newid Fformat, ynghyd â'r rhesymau dros hyn:

Mae'r cynigion hyn yn cyd-fynd ag adran 106 (1A)

(a) Bydd cymeriad yr orsaf yn cael ei gadw. Gan ddefnyddio technoleg darlledu 'holhti' bydd y gwasanaethau yn parhau i ddarparu newyddion lleol a gwybodaeth leol arall yn annibynnol ar wasanaethau eraill sy'n rhannu rhaglenni.

(e) Mae'r holl drwyddedau arfaethedig i rannu rhaglenni wedi'u lleoli yn ardal gymeradwy Gorllewin Cymru, ar wahân i AL139, sydd eisoes â threfniadau cydleoli a rhannu rhaglenni gyda dwy o'r pedair trwydded arall sy'n ymwneud â'r cais hwn.

Darparwch unrhyw wybodaeth a/neu dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r newid(iadau) arfaethedig isod. Yn benodol, efallai y bydd yr ymgeisydd yn dymuno amlinellu sut mae'n gweld y newid arfaethedig yn cyd-fynd â pholisi cais am newid Fformat sydd wedi'i gyhoeddi gan Ofcom

(<http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/>) a chanllawiau Lleolrwydd Ofcom hefyd, sy'n cynnwys ein polisi cydleoli a rhannu rhaglenni (<http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/localness/>).

Rydyn ni'n cydnabod bod hwn yn gais ar draws Ardaloedd Cymeradwy ac rydyn ni'n cyflwyno'r wybodaeth ganlynol sy'n berthnasol i bolisiau Ofcom: -

1. Perthynas ddiwylliannol, hanes y drwydded a chynsail o ran newid trwyddedau. Mae digon o dystiolaeth gefnogol sy'n ymwneud â pherthynas ddiwylliannol sydd wedi cael ei chyflwyno i Ofcom mewn ceisiadau blaenorol sy'n ymwneud â'r drwydded hon. Yn fwyaf penodol, mae ardal olygyddol amblecs lleol DAB Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys Ceredigion er nad yw hynny'n rhannu ffiniau ag ardaloedd analog cymeradwy Ofcom. Roedd cyn sir weinyddol Dyfed yn cynnwys sir Benfro, sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae Ofcom wedi cydnabod y dadleuon hyn o'r blaen drwy ganiatáu i'r gwasanaeth rannu rhaglenni â Radio Sir Gâr a/neu Radio Sir Benfro a drwy ganiatáu i'r orsaf gydleoli â gorsafoedd eraill yn ardal gymeradwy Gorllewin Cymru. Mae'r cais diweddaraf hwn yn estyniad rhesymegol i'r trefniant presennol drwy ychwanegu'r ddwy drwydded nesaf sy'n gyfagos yn ddaearyddol.

2. Maint yr orsaf – Radio Ceredigion ydy un o'r gwasanaethau radio masnachol lleiaf yn y DU ac rydyn ni'n credu y dylai Ofcom ystyried hyn. Gyda chostau trosglwyddo analog cymharol uchel y pen o'r boblogaeth, nid ydym yn credu y byddai'r orsaf yn hyfyw fel corff annibynnol os na fyddai'n gallu rhannu ei holl raglenni â Radio Sir Gâr mwyach.

3. Hyfywedd ariannol / gweithredol - mae gwybodaeth wedi cael ei chyflwyno ar y pwyt hwn yn gyfrinachol.

Nodiadau

Gall Ofcom gymeradwyo newid o dan unrhyw un o feini prawf (b) i (d) heb ymgynghori, neu yn dilyn ymgynghoriad sy'n para llai na 28 diwrnod, os yw Ofcom o'r farn y byddai cynnal ymgynghoriad o gwbl, neu am 28 diwrnod neu ragor, yn arwain at oedi a fyddai'n debygol o niweidio buddiannau deiliad y drwydded. Gall Ofcom hefyd dynnu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gyflwynir gan ddeiliad y drwydded at ddibenion ymgynghori.

Fersiwn 6 – diwygiwyd Ebrill 2010

Cefndir y Penderfyniad

Mae Radio Ceredigion Ltd, trwyddedai Radio Ceredigion wedi cyflwyno cais i Radio Ceredigion rannu'r holl raglenni mae'n eu gwneud yn lleol â Bridge FM (Pen-y-bont ar Ogwr) a Swansea Bay Radio. Mae eisoes wedi cael caniatâd i rannu ei holl raglenni â Radio Sir Gâr a Radio Sir Benfro. Mae'r holl drwyddedau dan sylw yn perthyn i Nation Broadcasting Ltd.

Rhaid i bob gwasanaeth radio masnachol lleol FM ddarlledu nifer penodol o raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol, ac mae hynny'n cael ei bennu yn eu Fformat. Rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol ydy'r rheini sy'n cael eu gwneud yn ardal drwyddedig gorsaf, neu lle mae Ofcom wedi cymeradwyo ardal ehangach ar gyfer yr orsaf honno, "Ardal Gymeradwy". Yr Ardal Gymeradwy sy'n berthnasol i Radio Ceredigion ydy Ardal Gymeradwy Gogledd Cymru.

Mae'r cais yma gan Radio Ceredigion ar gyfer rhannu rhaglenni â dau wasanaeth ychwanegol (Swansea Bay Radio a Bridge FM), nad ydynt yn Ardal Gymeradwy Radio Ceredigion. Byddai'r cais hwn yn newid cymeriad gwasanaeth Radio Ceredigion fel y nodir yn ei Fformat, ac yn unol â hynny does dim ond modd cytuno ar hyn os ydy Ofcom o'r farn bod un o'r meini prawf statudol a nodir yn adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 yn cael ei ddiwallu mewn perthynas â'r cais.

Dyma'r meini prawf hyn:

(a) na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;

(b) na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;

(c) yn achos trwydded leol, byddai'r newid o fudd i gynnal neu hybu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno; neu

(d) yn achos trwydded leol, bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg pobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n deillio o'r gwyriad, neu gefnogaeth sylweddol ganddynt iddo; neu

(e) yn achos trwydded leol y byddai – (i) y gwyriad yn digwydd wrth i raglenni yn y gwasanaeth trwyddedig beidio â chael eu gwneud ar safleoedd yn yr ardal neu'r gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) byddai'r rhaglenni hynny yn parhau i gael eu gwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar safleoedd yn yr ardal gymeradwy.

Mae hi'n bwysig nodi bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu i Ofcom ddefnyddio ei grebwyll i benderfynu a ddylid caniatáu newid, hyd yn oed os caiff un o'r meini prawf statudol uchod ei ddiwallu.

Mae Ofcom wedi cyhoeddi manylion y meini prawf polisi y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth ystyried cais gan wasanaeth i gydleoli a/neu i rannu rhaglenni â gwasanaeth neu wasanaethau mewn "ardal gymeradwy" wahanol. Serch hynny, efallai fod ffactorau eraill i'w hystyried, a chaiff pob cais ei drin ar sail fesul achos. Dyma'r ffactorau mae Ofcom wedi'u cyhoeddi:

- Maint yr orsaf: efallai fod achos cryfach dros gydleoli a/neu rannu rhaglenni pan fydd gan o leiaf un o'r gorsafoedd ardal drwyddedig gyda phoblogaeth o lai na 250,000 ac yn enwedig y rheini sydd â llai na 100,000, er na fyddem yn diystyru ceisiadau gan orsafoedd mwy mewn amgylchiadau eithriadol.
- Y pellter a'r berthynas rhwng yr ardaloedd: mae hyn yn debyg o fod yn achos cryfach dros gydleoli pan nad ydy'r gorsafoedd dan sylw yn rhy bell oddi wrth ei gilydd yn ddaearyddol a'u bod yn gallu dangos perthynas ddiwylliannol rhwng y ddwy ardal.
- Ariannol: efallai fod achos cryfach dros gydleoli pan fydd y gorsafoedd yn gallu dangos bod angen cydleoli er mwyn sicrhau hyfywedd ariannol y gorsafoedd dan sylw.

Penderfyniad

Yn gyntaf roedden ni wedi ystyried a oedd y cais gan Radio Ceredigion Ltd wedi diwallu unrhyw un o'r meini prawf statudol a nodir uchod.

Roedden ni wedi nodi y byddai'r allbwn cerddoriaeth ar Radio Ceredigion yn aros yr un fath, ac ystyried – y tu hwnt i rywfaint o allbwn arbenigol – bod pum gwasanaeth lleol Nation Broadcasting yng ngorllewin Cymru eisoes yn rhannu llyfrgell gerddoriaeth gyffredin (er bod amserlennu'r traciau yn amrywio rhwng un orsaf a'r llall).

Yn bwysig, bydd y prif elfennau o ddeunyddiau lleol – newyddion lleol, y tywydd a gwybodaeth am yr hyn sydd ymlaen – yn dal i gael eu darparu ar sail bwrpasol ar gyfer pob gorsaf. Roedden ni hefyd wedi gofyn a chael sicrwydd gan Nation Broadcasting y byddai Radio Ceredigion, petai'r newidiadau'n cael eu cymeradwyo, yn dal i ddarparu'r deunydd Cymraeg sy'n ofynnol o dan ei Fformat.

Oherwydd y rhesymau hyn fe ddaethom i'r casgliad na fyddai'r newidiadau a oedd yn cael eu cynnig yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol, ac felly roeddem yn fodlon yng nghyswllt adran 106(1A)(a).

Aethom ati nesaf i ystyried y cais yng nghyswllt meini prawf polisi Ofcom. Roedd hyn yn cynnwys, yn benodol, ceisiadau penodol meini prawf polisi i gydleoli neu i rannu rhaglenni â gorsafoedd mewn 'Ardal Gymeradwy' wahanol, fel y nodir uchod.

Yn y cyswllt hwn, fe wnaethom ystyried y ffaith bod Radio Ceredigion yn gwasanaethu poblogaeth gymharol fach (72,000 o oedolion). Rydyn ni'n fwy tebygol o ganiatáu i orsafoedd mewn Ardaloedd Cymeradwy gwahanol gydleoli a/neu rannu rhaglenni pan fydd gan o leiaf un o'r gorsafoedd ardal drwyddedig boblogaeth o lai na 250,000 o oedolion.

Gyda'i phoblogaeth fach a chostau trosglwyddo uchel oherwydd natur y tir mewn rhai rhannau o'r ardal drwyddedig, roedden ni hefyd wedi ystyried datganiad Nation Broadcasting y byddai Radio Ceredigion "bron yn sicr yn anghynaliadwy petai'n gweithredu annibynnol" ac felly ei bod yn rhaid rhannu gorbenion â gorsafoedd eraill yn y grŵp. Mae'r ffaith bod perchnogion blaenorol Radio Ceredigion wedi cael anawsterau ariannol sylweddol cyn gwerthu'r drwydded i Nation Broadcasting hefyd yn dystiolaeth o hyn.

Roedden ni'n credu bod y rhain yn rhesymau polisi da dros gytuno ar y cais.

Penderfynodd Ofcom felly gymeradwyo'r cais hwn i newid Fformat oherwydd ei fod yn fodlon mewn perthynas ag un o'r meini prawf statudol perthnasol, ac am y rhesymau polisi a amlinellwyd uchod.

Tachwedd 2016